# Gweithredu Hinsawdd a Bioamrywiaeth Machynlleth
## #5 Cylchlythyr Cymunedol

**Eisiau cymryd rhan yn Gweithredu Hinsawdd Machynlleth?** E-bostiwch freya@ecodyfi.cymru i gael ei ychwanegu at y rhestr bostio, gwahodd i ddigwyddiadau, ac ymuno â thrafodaethau a chynllunio gweithredu. Cyfarfod nesaf: Mai 23ain, 6yp

### Adborth o ddigwyddiadau:

**Delio â Biliau Ynni:** ~ Daeth 12 o sefydliadau i rannu cyngor ar leihau biliau ynni, newid i ynni adnewyddadwy, gwella effeithlonrwydd ynni, a chael cymorth ar gyfer y pethau hyn. Roedd yn ddigwyddiad rhwydweithio gwych; hoffai mynychwyr wahodd mwy o bobl i ddod i ddigwyddiadau yn y dyfodol. Cyswllt: freya@ecodyfi.cymru

**Caffi Trwsio:** Cafodd ystod eang o eitemau eu trwsio, o ddillad i Ysgrifennwr CD. Dysgodd y mynychwyr wahanol dechnegau hogi offer. Rydym yn chwilio am drydanwr cymwys i brofi PAT mewn digwyddiadau yn y dyfodol - cysylltwch â freya@ecodyfi.cymru i wirfoddoli neu i glywed am ddigwyddiadau'r dyfodol.

Roedd y **Gweithdy Beics i Fenywod** yn gyfle ysbrydoledig i gysylltu â merched eraill sydd â diddordeb mewn seiclo'n lleol, a gydlynwyd gan Trywydd Iach (ecodyfi) a Beicio Dyfi. Cysylltwch â mona@ecodyfi.cymru i glywed am reidiau a digwyddiadau grŵp yn y dyfodol.

### Grantiau ar gael - Cronfa Ynni Cymunedol

Mae Bro Dyfi Community Renewables (BDCR) yn gweithredu dau dyrbin gwynt uwchben dyffryn Dulas ger Machynlleth. Bob blwyddyn, telir unrhyw warged ariannol o'r ynni gwynt i'r aelodau ac mae ar gael fel grantiau drwy'r Gronfa Ynni Cymunedol i helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn yr ardal leol. Eleni, mae Cwm Cadian Hydro Ltd hefyd yn rhoi eu pot budd cymunedol yn hael i'r gronfa. I wneud cais am grant cysylltwch â freya@ecodyfi.cymru. Mae'r rhan fwyaf o ddyfarniadau fel arfer rhwng £250 - £500.



### Bwyd Dros Ben Machynlleth yn chwilio am leoliad

Mae grŵp newydd o'r enw Bwyd Dros Ben Machynlleth yn anelu at leihau gwastraff bwyd ac ailddosbarthu bwyd dros ben i'r gymuned. Cawn ein hysbrydoli gan fentrau Bwyd Dros Ben llwyddiannus yn y Drenewydd, Aberystwyth a Thywyn. Mae angen ystafell neu le storio gyda thrydan ym Machynlleth. Ydych chi'n gwybod am unrhyw leoedd posib? Cysylltwch â jmacdermot@fastmail.co.uk os gallwch chi ein helpu ni i ddod o hyd i rywle, os oes gennych chi unrhyw syniadau eraill neu os hoffech chi gael gwybod mwy.

**Arbed ynni yn y cartref** Mae Chris o Poppins Appliance Repairs (Machynlleth), wedi creu canllaw hynod ddefnyddiol ar arbed ynni ar sut rydym yn defnyddio offer fel poptai, microdonau a pheiriannau golchi dillad. Dewch o hyd i ddolen i'r canllaw yn adran effeithlonrwydd ynni cartref ein gwefan: https://www.ecodyfi.cymru/gweithreduhinsawdd



**Wythnos Seiclo:** 6-12 Mehefin
**Pythefnos Ynni Cymunedol:** 11-24 Mehefin
**Wythnos Fawr Werdd:** 24 Medi - 2 Hydref (gwneud cais am gyllid ar gyfer digwyddiadau erbyn 30 Mehefin)
SYNIADAU AR GYFER DATHLU HYN? Cysylltwch â freya@ecodyfi.cymru i wneud i rywbeth ddigwydd!

**Gwrthryfel Difodiant Machynlleth** Ymunodd ein Gweithredwyr Lleol â miloedd o rai eraill yn Llundain gan fynnu bod llywodraeth y DU yn atal pob buddsoddiad tanwydd ffosil, trwydded a chymhorthdal newydd ar unwaith. Mae hyn yn unol ag adroddiad diweddaraf y Cenhedloedd Unedig ar newid hinsawdd sy'n rhybuddio bod ein llwybr presennol o ecsbloetio tanwydd ffosil yn fygythiad dirfodol i fywyd. Eleni, dywedodd ysgrifennydd cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, Antonio Guterres, fod 'oedi yn golygu marwolaeth' a bod buddsoddi mewn olew a nwy newydd yn 'wallgofrwydd moesol ac economaidd'.




Mae ymrwymiadau presennol y DU yn cyfateb i tua 8 mlynedd arall o echdynnu tanwydd ffosil - mae Extinction Rebellion a Just Stop Oil yn dadlau bod hon yn 8 mlynedd i drawsnewid ein sector ynni yn radical i ffynonellau adnewyddadwy ochr yn ochr â lleihau'r galw am ynni trwy fesurau cadwraeth megis inswleiddio cartrefi. Bu gweithredwyr lleol yn cymryd rhan mewn gweithredoedd gan gynnwys gorymdeithiau, blocio pontydd a ffyrdd, targedu pencadlys Shell a chau adeilad eiconig y brocer yswiriant Lloyds yn yr ardal ariannol. Mae Lloyds yn yswirio 40% o'r farchnad ynni byd-eang, gan gynnwys tanysgrifennu piblinell tywod tar Trans Mountain yng Nghanada, a nifer o brosiectau echdynnu tanwydd ffosil hynod ddadleuol a dinistriol eraill, gan gynnwys archwilio'r Arctig. Wrth ddringo'r adeilad a gludo, cadwyno a chloi eu hunain i bob mynedfa ar wahân i ddihangfeydd tân ac o amgylch yr adeilad gyda baneri, llwyddodd ymgyrchwyr, gan gynnwys rhai o Aberystwyth, Borth, Dolgellau, Llanidloes a Machynlleth, i dynnu sylw at y ffeithiau hyn.

### Gweithrediadau Busnes

Mae **Siop Blodyn Tatws** yn siop ffrwythau a llysiau lleol sy'n gwerthu cynnyrch organig, a phan yn bosibl yn organig a lleol, neu heb gemegau artiffisial. Lleolir y siop yn 9 Heol Maengwyn, Machynlleth. Mae hon yn siop defnydd plastig isel lle mae'r rhan fwyaf o ffrwythau a llysiau'n cael eu gwerthu'n rhydd. Mae'n ymdrechu i gadw ei hallyriadau yn isel trwy brynu ynni gan gwmni ynni adnewyddadwy 100% Octopus a chefnogi'r economi bwyd lleol ac organig. Mae gwastraff naill ai'n cael ei droi'n gompost a'i ddefnyddio'n lleol, neu ei ailgylchu. Mae llysiau organig a fewnforir yn cael eu cludo nid eu hedfan.



http://siopblodyntatws.machynlleth.cymru/

Cysylltwch â freya@ecodyfi.cymru a rhoi sylw i weithrediad eich busnes chi.

**Cyngor am ddim i leihau biliau ynni: mewn cartref, busnes neu adeilad cymunedol** cysylltwch â Giulio giulio@ecodyfi.cymru 07494350065

**Grŵp gweithredu bioamrywiaeth** yn cyfarfod dydd Llun cyntaf y mis 6.30pm Cysylltwch â Stuart: championstuart@hotmail.com

**Efeiciau Cymunedol** Cysylltwch â freya@ecodyfi.cymru i fenthyg e-feic cymunedol o Fachynlleth.
Rhodd awgrymedig:
£5 y dydd neu £15 yr wythnos.



# Machynlleth Climate and Biodiversity Action #5

## Community Newsletter

**Want to get involved in Machynlleth Climate Action?** Email freya@ecodyfi.cymru to be added to the mailing list, invited to events, and join in with discussions and action-planning. Next meeting: 23rd May 6pm

**Feedback from events:**
**Dealing with Rising Energy Bills:** ~ 12 organisations came to share advice on reducing energy bills, switching to renewable energy, improving energy-efficiency, and accessing support for these things. It was a great networking event; attendees would like to invite more people to come to future events. Contact: freya@ecodyfi.cymru
**Repair Cafe**: A whole range of items were mended, from clothes to a CD Writer. Attendees learnt different tool-sharpening techniques. Seeking a qualified electrician to PAT test at future events - contact freya@ecodyfi.cymru to volunteer or hear about future events.
**Women's Bike and Skill Share** was an inspiring chance to connect with other women interested in cycling locally, coordinated by Trywydd Iach (ecodyfi) and Cycle Dyfi. Contact mona@ecodyfi.cymru to hear about future group rides and events.

### Grants available - Community Energy Fund

Bro Dyfi Community Renewables (BDCR) operates two operational wind turbines above the Dulas valley near Machynlleth. Each year, any financial surplus from the wind power generation is paid out to members and is made available as grants through under the Community Energy Fund to help reduce greenhouse gas emissions in the local area. This year, Cwm Cadian Hydro Ltd is also generously donating their community benefit pot to the fund. To apply for a grant contact freya@ecodyfi.cymru. Most awards are typically in the range of £250 - £500.



### Machynlleth Food Surplus seeks venue

A fledgeling group called Machynlleth Food Surplus is aiming to reduce food waste and redistribute surplus food to the community. We are inspired by successful Food Surplus initiatives in Newtown, Aberystwyth and Tywyn. We need a room or storage space with electricity in Machynlleth. Do you know of any potential places? Contact jmacdermot@fastmail.co.uk if you can help us find somewhere, have any other ideas or want to find out more.

### Saving energy at home

Chris from Poppins Appliance Repairs (Machynlleth), has created an incredibly useful guide to saving energy by how we use appliances such as ovens, microwaves, and washing machines. Find a link to the guide in the home energy-efficiency section of our website: https://www.ecodyfi.wales/climateaction



**Bike Week: 6-12th June**

**Community Energy Fortnight: 11-24th June**

**Great Big Green Week: 24th Sept – 2nd Oct** (apply for funding for events by 30th June)

IDEAS FOR CELEBRATING THESE? Contact freya@ecodyfi.cymru to make something happen!

### Extinction Rebellion Machynlleth

Our Local Activists joined thousands of others in London demanding that the UK government stop all new fossil fuel investments, licences and subsidies immediately. This is in line with the latest United Nations report on climate change that warns that our current path of fossil fuel exploitation provides an existential threat to life. This year, the UN secretary general Antonio Guterres said 'delay means death' and that investing in new oil and gas was 'moral and economic madness'.




The UK's current commitments equal around 8 more years of fossil fuel extraction- Extinction Rebellion and Just Stop Oil argue that this is 8 years in which to radically transition our energy sector to renewable sources alongside reducing energy demand through conservation measures such as insulating homes. Local activists were involved in actions including marches, blocking bridges and roads, targeting Shell's headquarters and shutting down the insurance broker Lloyds' iconic building in the financial district. Lloyds insure 40% of the global energy market, including underwriting the Trans Mountain tar sands pipeline in Canada, and numerous other highly controversial and destructive fossil fuel extraction projects, including Arctic exploration. By climbing the building and glueing, chaining and locking themselves to all entrances apart from fire escapes and surrounding the building with banners, activists, including those from Aberystwyth, Borth, Dolgellau, Llanidloes and Machynlleth, were able to draw attention to these facts.

### Business Actions

**Siop Blodyn Tatws** is a local fruit and veg shop selling organic produce, when possible organic and local, or without artificial chemicals. The shop is located at 9 Heol Maengwyn, Machynlleth. This is a low plastic shop where most fruit and veg is sold loose. They strive to keep their emissions low by buying energy through Octopus 100% renewable energy and supporting the local and organic food economy. Waste is either turned into compost and used locally, or recycled. Imported organic veg are shipped not flown. http://siopblodyntatws.machynlleth.cymru/



Contact freya@ecodyfi.cymru to feature your business' actions.

**Free advice to reduce energy bills: in a home, business, or community building** contact Giulio giulio@ecodyfi.cymru 07494350065

**Biodiversity action group** meets first Monday of the month 6.30pm Contact Stuart: championstuart@hotmail.com

### Community Ebikes

Contact freya@ecodyfi.cymru to borrow a community e-bike from Machynlleth. Suggested donation: £5/day or £15/week.

